Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

# NEWYDDLEN

Dosbarthwyd: 3 Awst 2011

**Cynnwys**

Ar ôl eu diswyddo fel Comisiynwyr Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, mae Mr. Paul Wood a Mr. John Bader wedi mynegi eu bwriad i ymddiswyddo fel Comisiynwyr y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru cyn gynted ag y gellir penodi Comisiynwyr newydd.

Nid yw eu hymddiswyddiadau'n gysylltiedig â gwaith Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru mewn unrhyw ffordd.

Mae camau yn yr arfaeth i benodi Comisiynwyr newydd i'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru cyn gynted â phosibl.

Oherwydd hynny, mae'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru yn bwriadu cyhoeddi ei gynigion cychwynnol ar gyfer Adolygiad o Etholaethau Seneddol 2013 ym mis Ionawr 2012. Mae'r Comisiwn Seneddol yn disgwyl cwblhau Adolygiad 2013 o fewn yr amser a amodir gan y Senedd.

Mae Mr. Ustus Lloyd Jones, Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru, wedi mynegi ei werthfawrogiad cynnes am gyfraniad rhagorol Mr. Wood a Mr. Bader i waith y Comisiwn Seneddol.

Tŷ Caradog , 1-6 Plas Sant Andreas, Caerdydd CF10 3BE
Caradog House, 1-6 St Andrew's Place, Cardiff CF10 3BE
☎ (029) 2039 5031 Fax/Ffacs (029) 2039 5250
e-bost/e-mail: comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk / bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk
gwefan / website: www.comffin-cymru.gov.uk / www.bcomm-wales.gov.uk
Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau teleffôn naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg
The Commission welcomes correspondence and telephone calls either in English or Welsh